## Y CYFANSODDIAD A'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## DYDD IAU, 11 EBRILL 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau 11 Ebrill 2019.

**PRESENT:** **Y Cynghorydd Marion Bateman (Is-Gadeirydd yn y Gadair)**

Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Jean Davies, Rob Davies, Ian Dunbar, David Healey, Joe Johnson, Mike Peers, Neville Phillips, Ian Smith a David Wisinger

**DIRPRWYON:**
Y Cynghorwyr Janet Axworthy (ar ran Clive Carver), Vicky Perfect (ar ran Michelle Perfect) a Patrick Heesom (ar ran David Williams)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Rita Johnson, Bob Connah, Ted Palmer, Paul Shotton ac Arnold Woolley

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Christine Jones a Haydn Bateman (fel arsylwyr)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Llywodraethu); Dirprwy Swyddog Monitro, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

Cytunwyd y dylid anfon llythyr o gydymdeimlad at y Cadeirydd, Cynghorydd Rita Johnson, wedi iddi golli ei thad.

### 21. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd dim.

### 22. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2018.

Materion yn codi:

Gofynnodd y Cynghorydd Dunbar i'r cofnodion adlewyrchu ymddiheuriadau ganddo ef a'r Cynghorydd Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**23. <u>ADOLYGIAD O GOD YMARFER CYNLLUNIO'R CYNGOR.</u>**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro a oedd yn darparu gwybodaeth am yr adolygiad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Safonau Cod Ymarfer Cynllunio’r Cyngor. Roedd y ddogfen hon yn ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor ac yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio’r Cyngor. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau oedd adolygu’r holl brotocolau yn y Cyfansoddiad i sicrhau eu bod yn gyfredol. Gwallau teipograffyddol oedd yr argymhellion yn bennaf ac roeddent wedi cael eu hamlygu. Y newid mawr cyntaf oedd newid “gall y cynghorydd” i “<u>mae’n rhaid</u> i’r cynghorydd” trwy gydol y ddogfen. Yr ail newid oedd ym mharagraff newydd 4.07 y Cod i amlinellu ymgysylltiad Aelodau’r Cabinet â’r Pwyllgor Cynllunio a’r goblygiadau i fuddiannau personol a rhagfarnol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ian Dunbar at 5.5. yn yr adroddiad a cheisiodd eglurhad i p’un a ddylai ef fel aelod lleol geisio cyngor cyn cyfarfod gyda phreswylwyr i drafod cais cynllunio lle byddai gofyn iddo ddarparu cyngor neu ymateb i gwestiynau. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod yr egwyddor yn parhau yr un fath sef, os yw Aelod o’r Pwyllgor Cynllunio yn ochri ag un ochr fel Aelod lleol ac yn penderfynu gwrthwynebu datblygiad, yna ni ddylai eistedd fel Aelod o'r Pwyllgor a dim ond ymddangos fel Aelod lleol.

Holodd y Cynghorydd Mike Peers sut y cofnodir hyfforddiant aelodau ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio i sicrhau bod seddi gwag yn cael eu llenwi’n brydlon o bob plaid wleidyddol. Awgrymodd ef y byddai’n ddarbodus i fwy o Aelodau gael eu hyfforddi i eistedd ar y Pwyllgor ac nid fel dirprwyon yn unig. Yna cyfeiriodd at y newidiadau a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Safonau a gofynnodd a ddylai'r ddogfen gael ei rhoi i'r Grŵp Strategol Cynllunio cyn y Cyngor Sir rhag ofn bod mwy o newidiadau yr hoffent eu gwneud. Awgrymodd y dylid newid argymhelliad rhif 2 i ddweud y dylai’r Cod Ymarfer Cynllunio gael ei adrodd wrth y Grŵp Strategol Cynllunio cyn y Cyngor Sir. Mewn ymateb i hynny, cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro ei fod yn syniad da i’r Grŵp Strategol Cynllunio ystyried y Cod Ymarfer ond roedd yr adroddiad hwn yn rhan o adolygiad y Pwyllgor Safonau ar faterion yn ymwneud â chod ymddygiad o fewn y Cod Ymarfer a dyna pam y daeth at y Pwyllgor hwn cyn y Cyngor Sir. Awgrymodd ef, pe bai adroddiad ar wahân yn cael ei roi i’r Grŵp Strategol Cynllunio i edrych ar newidiadau eraill, gallai hynny achosi oedi cyn i’r adroddiad fynd i’r Cyngor Sir.

Cytunodd Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gyda sylwadau'r Cynghorydd Peers ond dywedodd mai newidiadau bach oedd y rhain. Cyfeiriodd at bwynt 4.7 yn yr adroddiad. Roedd ef wedi gofyn yn bersonol i'r pwynt hwn gael ei gynnwys i ddarparu eglurhad i Aelodau'r Cabinet ac Aelodau. Nid oedd unrhyw newidiadau wedi’u gwneud i’r Polisi ond penderfyniad y Pwyllgor oedd a ddylai’r ddogfen gael ei rhoi i’r Grŵp Strategol Cynllunio cyn y Cyngor Sir.

Holodd y Cynghorydd Ian Smith a oedd Hyfforddiant Aelodau ond yn cael ei gynnal yn ystod y dydd gan y byddai hynny’n anodd i Aelodau fel fo a oedd yn gweithio. Cyfeiriodd wedyn at y Grŵp Strategol Cynllunio a teimlai bod hwn yn Bwyllgor cyfrinachol ac nad oedd yn agored ac yn dryloyw.

Mewn ymateb i’r cwestiwn ynghylch Hyfforddiant Aelodau, dywedodd yr Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, pan fo Aelodau newydd yn cael

eu hethol am y tro cyntaf maent yn cael cynnig hyfforddiant a ddarperir gan Brif Swyddogion i'w galluogi i eistedd ar y Pwyllgor cyn gynted ag sy'n bosibl. O ran y Grŵp Strategol Cynllunio dywedodd oherwydd natur y cyfarfod hwn a'r cyfrinachedd sy'n ofynnol, nid oedd cynnal cyfarfodydd agored yn ddefnyddiol nes bo prosiectau wedi symud ymlaen i'r cyfnod ymgynghori pan fyddai pob Aelod yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Yna darparodd enghreifftiau.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at y cwestiwn yn ymwneud â hyfforddiant cynllunio a ddarperir ar ddechrau'r Cyngor newydd i holl Aelodau newydd. Roedd gofyn i Aelodau presennol o'r Pwyllgor fynychu 75% o'r hyfforddiant a gynigir ac roedd hwn yn cael ei ddarparu mewn sesiynau bore, prynhawn a gyda'r nos. Nid oedd llawer o bobl yn dueddol o fynychu'r sesiynau gyda'r nos ac ambell waith nid oeddent yn cael eu cynnal gan nad oedd unrhyw Aelodau yn dewis eu mynychu. Dywedodd y Cynghorydd David Wisinger bod Aelodau newydd yn cael "cyrsiau carlam" gan swyddogion i'w galluogi i fynychu Pwyllgor cyn gynted ag sy'n bosibl.

Cytunodd y Cynghorydd Neville Phillips gyda phryderon y Cynghorydd Peers nad oedd hyn wedi'i gyfeirio at y Grŵp Strategol Cynllunio. Cytunodd y Cynghorydd Patrick Heesom gyda barn y Cynghorydd Phillips y dylai hyn fod wedi mynd at y Grŵp Strategol Cynllunio yn gyntaf ond teimlai bod hwn yn adroddiad defnyddiol a chynorthwyol iawn. Yna cyfeiriodd at sylwadau'r Cynghorydd Smith a dywedodd nad oedd y Grŵp Strategol Cynllunio yn gyfarfod cyfrinachol ond bod rhai o'r ceisiadau a ystyrir yn hynod gyfrinachol. Ailadroddodd y gallai unrhyw Aelod fynychu cyfarfod yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

Ychwanegodd y Cynghorydd Peers nad oedd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi a dywedodd bod Aelodau o'i grŵp wedi mynychu cyfarfodydd ac yna cyfeiriodd at y CDLl a safleoedd ymgeisiol sy'n bynciau sy'n mynnu trafodaethau gofalus.

Cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro gyda'r sylwadau a wnaethpwyd ynglŷn â chyfrinachedd a dywedodd bod yn rhaid i Aelodau a oedd wedi gofyn am gael mynychu cyfarfodydd, am ba bynnag reswm, ddeall yr angen am gyfrinachedd.

Ailadroddodd y Cynghorydd Wisinger bod cyfarfodydd agored yn cael eu cynnal ond y Cadeirydd oedd â'r disgresiwn i alluogi Aelodau i fynychu.

Dywedodd y Cynghorydd Peers, o ran cael y Grŵp Strategol Cynllunio i adolygu'r ddogfen, ei fod yn fodlon derbyn arweiniad y Dirprwy Swyddog Monitro ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Cod Ymarfer Cynllunio yn addas i'r diben o ran cyngor yn ymwneud a Chod Ymddygiad Aelodau, y Protocol ar gysylltiadau Swyddogion / Aelodau, a'r cyngor gweithdrefnol yn gysylltiedig â materion cynllunio, yn amodol ar y newidiadau arfaethedig y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.05 yr adroddiad hwn a'r newidiadau eraill a amlygir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

b) Bod y Cod Ymarfer Cynllunio yn cael ei adrodd wrth y Cyngor llawn gyda chyngor gan y Pwyllgor hwn y dylid ei newid yn unol ag argymhelliad a) uchod.

**24.** **COD YMDDYGIAD SWYDDOGION**

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) a eglurodd bod y ddogfen yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Safonau am yr un rhesymau â'r Cod Ymarfer Cynllunio. Roedd y prif adolygiad yn ymwneud â'r ffordd y caiff cysylltiadau eu datgan a'r angen i ddarparu cyfres gyson o ffurflenni a chanllawiau i swyddogion. Edrychodd yr adolygiad ar ffyrdd ymarferol o ymdrin â gwrthdaro. Roedd y ddogfen hon wedi cael ei rhoi i'r Pwyllgor Safonau a'r undebau a oedd yn gefnogol i'r ffurflen newydd a'r canllawiau.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell bod hwn yn adroddiad defnyddiol ac yna darparodd senario lle'r oedd swyddog cynllunio yn gweithio'n breifat y tu allan i'r cyngor yn creu cynlluniau ac ati ar gyfer cais cynllunio a gofynnodd sut y byddai'r gwrthdaro hwn yn cael ei nodi? Cyfeiriodd wedyn at Ddatgan Cysylltiadau Aelodau ac awgrymodd y dylid atgoffa Aelodau i wirio eu ffurflenni a'u diweddaru yn ôl yr angen. Cyfeiriodd hefyd at y rhodd o £10 yr anogir Aelodau i'w gyfrannu at elusen y Cadeirydd a gofynnodd a oedd y rhoddion hynny'n cael eu cofnodi.

Cytunodd y Cynghorydd Heesom bod hwn yn adroddiad defnyddiol a chyfeiriodd at gwestiwn a oedd yn arfer bod ar y ffurflen yn gofyn i aelod a oedd yn aelod o gymdeithas neu borthdy a gofynnodd a oedd datganiad tebyg ar gyfer Swyddogion y Cyngor.

Mewn ymateb i hyn cyfeiriodd y Prif Swyddog at gwestiwn y Cynghorydd Bithell a dywedodd y byddai'n amhriodol i swyddog cynllunio greu cynlluniau a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo yn enwedig os yw'r swyddog hwnnw yn gysylltiedig â'r broses gymeradwyo, byddai hynny'n amlwg yn gwrthdaro. Pe bai pensaer sy'n gweithio i'r Cyngor yn creu cynlluniau ni fyddai hynny'n achosi gwrthdaro. Yn yr un modd gallai swyddogion trwyddedu neu gyfreithwyr ddod yn rhan o wrthdaro uniongyrchol. O ran ail-gylchredeg Datganiadau Cysylltiadau Aelodau, cytunodd y gellid anfon nodyn atgoffa at bob Aelod

Cyfeiriodd y Prif Swyddog wedyn at roddion a dderbyniwyd gan weithwyr a bod y rhain gan gynnwys rhoddion o werth tybiannol yn cael eu cofnodi fel 'gwrthodwyd' neu 'derbyniwyd a rhoddwyd i elusen y Cadeirydd' er mwyn darparu trywydd archwilio. O ran aelodaeth o sefydliadau allanol, roedd gofyn i uwch swyddogion neu deiliaid swyddi a gyfyngir yn wleidyddol i gofrestru eu cysylltiadau ond cofrestr wirfoddol oedd hon, nid un orfodol, oherwydd hawliau preifatrwydd o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Roedd yn orfodol fodd bynnag i ddatgan cysylltiad pe bai modd profi bod gwrthdaro yn bodoli. Roedd deddfwriaeth yn ei gwneud yn orfodol i swyddogion wneud hynny a oedd yn wahanol i'r un a ddilynir gan Aelodau.

Gofynnodd y Cynghorydd Glyn Banks a oedd hyn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Cadarnhaodd y Prif Swyddog bod hynny wedi digwydd ym mis Ionawr a'u bod wedi ei gymeradwyo cyn belled a bo'r undebau yn cefnogi

hynny. Roedd y newidiadau wedi cael eu cefnogi gan yr Undebau ym mis Mawrth er mwyn gallu rhoi'r adroddiad i'r Pwyllgor hwn

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Aelodau at y wefan lle roedd fersiwn electronig o ffurflen ddatgan Cynghorwyr a gallai Aelodau ei gweld a gwneud cais am ddiweddariad. Cytunwyd y dylid anfon nodyn atgoffa gydag ymateb gofynnol "oes mae angen i mi ddiweddaru'r ffurflen" neu "na mae'r ffurflen yn gywir"

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r canllawiau esboniadol yng Nghod Ymddygiad y Swyddogion

**25. DATBLYGU AC YMGYSYLLTU AELODAU**

Adroddiad cynnydd oedd hwn a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau a oedd wedi cael eu cynnal ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ar 17 Hydref 2018. Cyfeiriodd yr Aelodau at bwynt 1.02 yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r gweithdai a'r sesiynau briffio a oedd wedi cael eu cynnal ers mis Hydref. Cwmpaswyd amrywiaeth o bynciau ac roedd y lefelau presenoldeb yn well mewn rhai gweithdai nag eraill ac yn anffodus bu'n rhaid canslo dau allan o dri o'r sesiynau'r Iaith Gymraeg gan nad oedd digon o Aelodau yn mynychu i gyfiawnhau cynnal tri sesiwn. Roedd y Gweithdy Deall Adroddiadau Perfformiad wedi'i ail-drefnu ar gyfer 29 Ebrill am 10.00 am.

Roedd y Cynghorydd Bithell yn siomedig ag ymateb Aelodau i'r Sesiynau Iaith Gymraeg gan fod hon yn fenter genedlaethol i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg. Dywedodd ei fod yn gyflwyniad ardderchog i'r saith Aelod a fynychodd ond dywedodd nad oedd yn adlewyrchiad da o'r Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod 63 allan o 70 Aelod wedi llenwi Holiadur yr Iaith Gymraeg yn hydref y llynedd a oedd yn uwch na'r rhan fwyaf o awdurdodau.

Gofynnodd y Cynghorydd Healey am wybodaeth ynglŷn â'r broses ar gyfer awgrymu gweithdai yn y dyfodol a dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y gallai unrhyw Aelod awgrymu gweithdy ac y byddai'n cael ei ystyried. Cyfeiriodd y Cynghorydd Healey wedyn at fformiwla ariannu Cymru sy'n cael ei rannu'n 70 o ddangosyddion a dywedodd bod angen trafodaethau i ddatblygu strategaeth ar gyfer hyn. Mewn ymateb cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gyfeirio hyn at y gweithgor trawsbleidiol ar gyfer cyllid llywodraeth leol a gafodd ei gyfarfod cyntaf yn ddiweddarach yn y mis. Gallai ragweld gweithdai yn dod o'r gweithgor hwn yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at gyfarfod Arweinwyr Grŵp lle trafodwyd lefelau presenoldeb gwael mewn gweithdai. Awgrymodd ef y byddai'n fanteisiol pe bai Aelodau yn deall pam fod y gweithdy'n cael ei gynnal, pwy oedd wedi gofyn iddo gael ei gynnal a'r nod a'r budd o'i gynnal. Daeth y gweithdai o gyfarfodydd cyllideb neu gyfarfodydd Pwyllgor a byddai'n fuddiol i Aelodau gael y wybodaeth hon. O ran y sesiynau Iaith Gymraeg, teimlai mai dewis personol i

Aelodau fyddai hynny i benderfynu a fyddent o gymorth iddynt yn eu rôl fel Cynghorydd. Pe bai Aelodau yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt fel Cynghorwyr a'u rhwymedigaethau i Lywodraeth Cymru (LlC) o dan Ddeddf yr Iaith, efallai y byddai mwy ohonynt wedi mynychu.

Mewn ymateb i hyn dywedodd y Prif Swyddog bod rhwymedigaethau'r Cyngor yn cael eu gosod allan ym mholisi'r Cyngor a gobeithiai y byddai Aelodau'n cefnogi'r Cyngor i ddeall y materion sy'n gysylltiedig ag iaith a'r effeithiau hyd yn oed os nad oeddent yn dymuno dysgu'r iaith fel gwneuthurwyr polisi. Ychwanegodd y Cynghorydd Peers bod hyn yn atgyfnerthu ei sylw cynharach bod angen darparu mwy o wybodaeth i Aelodau ynglŷn â phwrpas y Gweithdy. Dywedodd y Cynghorydd Bithell nad sesiynau Cymraeg oedd y rhain ac mai'r pwrpas oedd rhoi gwell dealltwriaeth i Aelodau o'r rhwymedigaethau a'r gofynion ar y Cyngor mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg ac y gallai'r Cyngor wynebu cosbau pe na bai'r safonau'n cael eu cyrraedd.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod LlC wedi ariannu'r cyrsiau ledled Cymru gydag agenda cyffredin ar gyfer Ymwybyddiaeth Iaith. Cyfeiriodd wedyn at sylwadau'r Cynghorydd Peers am y gweithdai a dywedodd pan dderbynnir ceisiadau gan swyddogion y byddai bob amser yn edrych i weld a fyddai nodyn briffio yn ddigonol. Roedd yn deall bod amser Aelodau yn gyfyngedig ac roedd yn ceisio eu cadw mor fyr ag sy'n bosibl.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnydd y digwyddiadau Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau a gynhaliwyd ers yr adroddiad diwethaf.

b) Os oes gan Aelodau unrhyw awgrymiadau ar gyfer Datblygu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn y dyfodol, fe'u gwahoddir i gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i'w trafod.

## 26. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

...................................................

**Chairman**